

Presennol

Y Cyngorydd M Lewis – Cadeirydd

R Williams	J E Pratt	R J Smith	RM James
RJ Collins	MJ Kearns	H T Bennett	A R Berrow
S J Bletsoe	H Griffiths	P W Jenkins	

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

I Williams

Swyddogion:

Kirsty Evans	Uwch Swyddog Trwyddedu
Katia Daw	Cyfreithiwr
Julie Ellams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Andrew Rees	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

2. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu dyddiedig 13 Gorffennaf 2021, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir

3. PENODI IS-BWYLLGOR(AU) TRWYDDEDU A DIRPRWYAETHAU I SWYDDOGION

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu a Pholisi adroddiad yn cynnig aelodaeth Is-bwyllgorau'r Pwyllgor Trwyddedu yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2022. Cynigwyd bod y Pwyllgor Trwyddedu yn parhau â'r trefniadau presennol ac yn cymeradwyo ffurfio dau banel a fydd yn cyfarfod ar sail rota, pob un yn cynnwys saith Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu ac yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu lle bo hynny'n bosibl. Os na fydd y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn gallu mynychu eu cyfarfod is-bwyllgor priodol, etholir cadeirydd o'r rhai sy'n bresennol.

Gofynnodd aelod a oedd y ddau is-bwyllgor yn ymdrin â chymysgedd o eitemau neu a oedd pob un ohonynt yn canolbwyntio ar rai meysydd. Atebodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y byddai gan y ddau ohonynt yr un swyddogaethau. Ymdriniodd y ddau bwyllgor â gwaith union yr un fath a dim ond ffordd o rannu'r llwyth gwaith oedd hyn.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ffurfio dau banel a fydd yn cyfarfod ar sail rota, pob un yn cynnwys saith Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu ac yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu lle bo hynny'n bosibl. Os na fydd y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn gallu mynychu eu cyfarfod is-bwyllgor priodol, etholir cadeirydd o'r rhai sy'n bresennol. Byddai'r Is-bwyllgorau Trwyddedu yn cyflawni swyddogaethau trwyddedu,

PWYLLGOR TRWYDDEDU - DYDD MERCHER, 25 MAI 2022

gan gynnwys trwyddedu tacsis a masnachu ar y stryd fel y nodir
yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Is-bwyllgor Trwyddedu A	Is-bwyllgor Trwyddedu B
Y Cynghorydd Maxine Lewis – (C)	Y Cynghorydd Richard Williams - (C)
Y Cynghorydd Johanna Llewellyn-Hopkins	Y Cynghorydd Heather Griffiths
Y Cynghorydd Richard Collins	Y Cynghorydd Heidi Bennett
Y Cynghorydd Mike Kearn	Y Cynghorydd Malcolm James
Y Cynghorydd Jonathan Pratt	Y Cynghorydd Rob Smith
Y Cynghorydd Steven Bletsoe	Y Cynghorydd Ian Williams
Y Cynghorydd Anthony Berrow	Y Cynghorydd Philip Jenkins

4. **EITEMAU BRYD**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:17